Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Llanbedrgoch

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle roddir pwyslais cadarn ar wella lles disgyblion. Mae gan y staff a'r disgyblion berthynas weithiol dda ac mae'r ymdeimlad o barch sy'n bodoli rhyngddynt yn nodwedd arbennig o'r ysgol. Mae'r disgyblion yn teimlo'n hyderus bod y staff yn barod i wrando ar eu syniadau ac ar unrhyw bryder sydd ganddynt. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn hapus ac yn chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r staff yn cydweithio'n fwriadus i gynllunio cwricwlwm ysgogol a difyr. Mae'r gweithgareddau dysgu yn effeithiol wrth ddatblygu ystod o fedrau'r disgyblion, gan gynnwys eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Er hyn, mae lleiafrif y disgyblion yn troi i'r Saesneg wrth weithio o fewn ardaloedd o fewn yr amgylchedd dysgu, er enghraifft wrth ddysgu yn yr ardal adeiladu. Yn gyffredinol, nid oes gan y disgyblion dealltwriaeth ddigon cadarn o ystyr geirfa Gymraeg wrth ddarllen a dehongli testunau amrywiol. Mae'r ardaloedd dysgu ddiddorol yn cynnig cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau cerddorol yn effeithiol wrth gyfansoddi caneuon yn yr ardd gerddoriaeth. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n herio'r disgyblion i gyflawni'n dda yn ddigon effeithiol bob tro.

Mae'r pennaeth a'r staff yn cael eu cefnogi'n frwd gan lywodraethwyr sy'n llwyr ymroddedig i lwyddiant yr ysgol. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gweithio'n agos â staff er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r safonau dysgu. Yn dilyn gweithgareddau monitro, maent yn rhannu gwybodaeth am eu canfyddiadau yn briodol, gan nodi cryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wella. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn defnyddio canfyddiadau'r gweithgareddau monitro yn ddigon pwrpasol i arwain y camau nesaf yn natblygiad yr ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Sicrhau bod arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso yn bwrpasol i arwain y camau nesaf yn natblygiad yr ysgol**

**A2 Darparu gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu**

**A3 Parhau i wella medrau llafar a darllen Cymraeg disgyblion**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**




🄗 Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.